OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1098

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020

## RHAN 2

### Diwygiad i Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiad i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y cofnod ar gyfer Gwlad Groeg, yn lle'r geiriau o "Antiparos" hyd at y diwedd rhodder "Creta a Mykonos".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran tiriogaethau Antiparos, Lésvos, Páros, Santorini, Serifos, Tínos a Zákynthos yng Ngwlad Groeg.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 10 Hydref 2020—

(a) oedd person ("P") yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o diriogaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, neu ar ôl bod mewn tiriogaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, a

(b) diwrnod olaf ynysiad P yw 10 Hydref 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(3) Nid yw hepgor y tiriogaethau o Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan reoliad 2 yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 10 Hydref 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn tiriogaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(5) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â thiriogaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, drwy gyfeirio at ba un a oedd y diriogaeth yn diriogaeth nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y diriogaeth pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(6) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.